

PRICE, WATKIN WILLIAM (1873 - 1967), ysgolfeistr, ymchwilydd

Enw: Watkin William Price
Dyddiad geni: 1873
Dyddiad marw: 1967
Priod: Margaret Price (née Williams)
Rhiant: Sarah Price
Rhiant: Watkin Price
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr, ymchwilydd
Maes gweithgaredd: Addysg; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: David Leslie Davies

Ganwyd 4 Medi 1873 yn 261 Cardiff Road, Aberaman, Aberdâr, Morgannwg, i Watkin a Sarah Price, Cymry Cymraeg o Frycheiniog. Glöwr oedd y tad; ymddengys i'r teulu mudo i Aberdâr erbyn 1866. Addysgwyd ' W.W. ' yn ysgol elfennol Blaen-gwawr tan 1886 pan aeth i weithio yn swyddfa *Tarian* y *Gweithiwr* yn Aberdâr. Yna, bu'n ddisgybl athro mewn dwy ysgol leol tan 1895 pan aeth yn fyfyrwr 'normal' i Goleg Prifathrofaol Caerdydd. Yn 1897 fe'i cyflogwyd gan Fwrdd Ysgolion Caerdydd. Yn 1900 dychwelodd i Gwm Cynon yn athro yn hen ysgol **Dan Isaac Davies** , sef Ysgol y Comin, Trecynon, a sefydlwyd yn 1848 mewn adwaith i'r pardduo a gafodd yr ardal yn y *Llyfrau Gleision*. Wedyn, bu'n brifathro ar ysgolion Llwydcoed (1912), Cap Coch (1921) a Blaen-gwawr (1924) nes ymdeol yn 1933.

Treuliodd ei oes, bron, yn ymchwilio i hanes a bywgraffyddiaeth ei fro a'i sir enedigol. Dechreuodd mewn ymateb i gais yn Eisteddfod Genedlaethol 1920 am draethawd ar hanes a llên gwerin unrhyw blwyf Cymreig. Ni ddaeth y gwaith byth i ben; eithr casglodd a dehonglodd yn helaeth ym maes hanes un o ardaloedd pwysicaf Cymru'r 19eg ganrif. Canlyniad ei lafur oedd traethodau, cofnodion ac adysgrifau gwerthfawr a amrywiol o'r mynachaidd i'r glofaol eu maes. Gellir gwir ryfeddu at ei gamp yn copio rhwng 1941 ac 1943, ac yntau yn ei henaint, gannoedd lawer o dudalennau manwl allan o weithredoedd-mwyngloddio astrus yr ardal. Achubodd gyfrol unigryw o 1827-28 gan nithoedd **Anthony Bacon II** a ddarluniai natur wledig dwyrain Morgannwg cyn i ddiwydiant ei difwyno. Y mae ei Fynegai o ryw 40,000 cerdyn ar y byw a'r meirw yng Nghymru (sydd bellach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru), yn dal i fod o ddefnydd i ymchwilydd. Gwahoddodd **R. T. Jenkins** ef i gyfrannu 30 llith i'r *Bywgraffiadur Cymreig*, amryw ohonynt ar rai o gymeriadau pwysicaf y Gymru ddiwydiannol a fu.

Bu hefyd yn arloeswr sosialaidd : yn ysgrifennydd y Blaid Lafur Annibynnol yn Aberdâr, 1900-08; yn gynrychiolydd etholiad Keir Hardie, A.S., yn 1906; a cheir traddodiad mai ef oedd un o'r mwyaf brwd yn pwyso am enwbiad Hardie yng nghyfarfod Bethel, Abernant (Mehefin 1900) er ymladd etholiad cyffredinol fis Hydref y flwyddyn honno. Eto i gyd, troes maes o law at Blaid Cymru, gan gymeradwyo **Gwynfor Evans** yn is-etholiad Aberdâr yn 1954. Oherwydd llugoredd rhai capeli tuag at Lafur ymadawodd ' W.W. ' â chapel Saron (A), Aberaman, gan ymuno â'r Undodiaid Cymraeg yn yr Hen-dy-cwrdd, Trecynon.

Priododd Margaret Williams, Henbant Hall, Llandysul, 1901 : bu hi farw yn 1950. Yn 1952 dyfarnwyd iddo radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru, a châl ei adnabod weithiau fel ' Bob Owen y De '. Bu farw 31 Rhagfyr 1967 gan adael pedwar mab ac un ferch. Wyr iddo yw Peter Price, A.S. (C) Ewropeaidd De-ddwyrain Llundain.

Awdur

David Leslie Davies

Ffynonellau

Old Aberdare, 4 (1985) a'r ffynonellau y cyfeirir atynt yno

Y Casglwr pob peth printiedig, Mawrth 1983

Aberdare Parish Magazine, Mawrth 1950

cofiannau'r *Aberdare Leader* yn ystod Ionawr 1968

nodïadau hunangofiannol yn Llyfrgell Ganol Aberdâr;

adneuon ganddo yno ac yn LIGC ac Archifdy Morgannwg

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734564

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government